

Katherine Agong

Teitl Swydd: Uwch Beiriannydd Trafnidiaeth, Capita Symonds

Cymwysterau: BSc mewn Daearyddiaeth, MSc mewn Cynllunio a Pheirianeg Trafnidiaeth

Dim ond rhai mathau o destunau mathemateg yr oeddwn yn eu mwynhau yn yr ysgol. Ond roeddwn bob amser yn gwybod ei fod yn bwnc hanfodol felly ymdrechais i wneud yn dda mewn mathemateg er nad oedd yn hoff bwnc i mi.

Yn y diwedd bu i mi wneud mathemateg yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y brifysgol ac yna gwneuthum llawer o gyrsiau'n seiliedig ar fathemateg tra'n gwneud fy MSc.

Yn awr, rwyf yn falch fy mod wedi'u gwneud gan fod fy ngwaith yn gofyn i mi ddefnyddio rhychwant o sgiliau mathemategol yn fy mywyd bob dydd – popeth o adio a thynnu syml, i drosi gwerthoedd i wahanol unedau, darllen a chynhyrchu graffiau ac aildrefnu hafaliadau.

Ar ôl y brifysgol, fy swydd gyntaf oedd gweithio fel dadansoddwr ymchwil mewn rheolaeth trychinebau. Roedd hyn yn cynnwys llawer dadansoddiad ystadegol. Yna gweithiais fel peiriannydd arwyddion traffig am ddwy flynedd cyn mynd i fy swydd bresennol fel peiriannydd trafndiaeth. Ar ddiwrnod nodweddiadol, byddaf yn dadansoddi data traffig. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ystadegau am ddamweiniau, ysgrifennu adroddiadau sy'n cael eu galw'n Asesiadau Trafnidiaeth, ceisio modelu'r llif traffig neu gynllunio astudiaethau traffig a thrafnidiaeth amrywiol. Dros y blynyddoedd, nid yw fy nghanfyddiad o fathemateg wedi newid. Rwyf yn dal i'w weld fel pwnc pwysig iawn a hanfodol. Nawr fy mod yn llawer hŷn ac wedi sefydlu'n iawn yn fy ngyrfa, rwy'n falch o wybod fod llawer o'r



“Rwy'n falch o wybod fod llawer o'r testunau mathemateg y bu'n rhaid i mi eu dysgu yn yr ysgol a'r brifysgol mewn gwirionedd yn berthnasol i fy swydd a'm bywyd yn ei gyfanrwydd.”

testunau mathemateg y bu'n rhaid i mi eu dysgu yn yr ysgol a'r brifysgol mewn gwirionedd yn berthnasol i'm swydd a'm bywyd yn ei gyfanrwydd.

Katherine Agong

Job Title: Senior Transportation Engineer, Capita Symonds

Qualifications: BSc Geography, MSc Transport Planning and Engineering

I only enjoyed some maths topics at school but I always knew that it was an essential subject so I strived to do well in maths even though it was not my favourite subject.

I ended up doing mathematics during my first year of university and then I did a lot of mathematics-based courses while doing my MSc.

Now, I'm glad I did because my work requires me to use a range of mathematical skills in my daily life – everything from simple addition and subtraction, to converting values to different units, reading and producing graphs and rearranging equations. After university, my first job was working as a research analyst in disaster

management. This involved a lot of statistical analysis. I then worked as a traffic signals engineer for a couple of years before I entered my current job as a transportation engineer.

On a typical day I will be analysing traffic data. This will include looking at statistics about accidents, writing reports which are called Transport Assessments, trying to model the flow of traffic or planning various traffic and transport studies.

Over the years, my perception of maths has not changed. I still see it as a very important and essential subject. Now that I am much older and well established in my career, I am glad to know that a lot of the mathematics



“I am glad to know that a lot of the mathematics topics I had to learn at school and university are actually relevant to my job and life as a whole.”

topics I had to learn at school and university are actually relevant to my job and life as a whole.